

Bwrdd Iechyd Cwm Taf

Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap

**Dyddiad yr Ymweliad
17 Ionawr 2012**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
CAERFFILI
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 029 20 928850
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 20 928877
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

	Rhif y Dudalen
1. Cyflwyniad	1
2. Canfyddiadau: Cryfderau, Meysydd i'w Gwella Ymhellach a Chamau y mae Angen eu Cymryd.....	3
2.1 Amgylchedd Cyffredinol Ysbyty'r Tywysog Siarl	3
2.2 Ward 1, Gastroenteroleg Feddygol	3
Yr Amgylchedd	3
Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	4
Cyfarpar a Storfeydd	5
Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff	6
2.3 Ward 8, Gynaecoleg	6
Yr Amgylchedd	6
Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	7
Cyfarpar a Storfeydd.....	8
Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff	8
2.4 Ward 19, Ward Lawfeddygol	9
Yr Amgylchedd	9
Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	9
Cyfarpar a Storfeydd.....	10
Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff	11
3. Casgliad.....	13
4. Camau Nesaf.....	15

1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mai 2006, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y cyhoedd a chleifion ar draws Cymru, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ei bwriad i gynnal archwiliadau dirybudd, ar hap, o lanweithdra mewn sefydliadau gofal iechyd ar draws Cymru. Cynhelir rhaglen o ymweliadau dirybudd bob blwyddyn.

1.2 Ystyrir gwybodaeth o sawl gwahanol ffynhonnell sy'n berthnasol i'r agenda hon, ac fe'i defnyddir i bennu cyfeiriad y rhaglen archwiliadau ar hap. Rydym yn parhau i adolygu'r rhaglen yn gyson gan ystyried unrhyw wybodaeth newydd a ddaw i'n sylw.

1.3 Fel rhan o'n Harchwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap, rydym yn cynnal trafodaethau â'r staff clinigol ac yn arsylwi manau clinigol yn uniongyrchol. Mae'r rhestr gyfeirio a ddefnyddir i lywio'r archwiliadau wedi ei seilio ar y pecyn archwilio Rheoli Haint a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Atal Heintiau (IPS).

1.4 Mae mwy o wybodaeth am AGIC, ei hymweliadau ar hap a'r pecyn archwilio a ddefnyddir i'w gweld yn www.hiw.org.uk

Ymweliad â Bwrdd Iechyd Cwm Taf

1.5 Ar 17 Ionawr 2012, ymwelodd AGIC ag Ysbyty'r Tywysog Siarl, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Cwm Taf, gan gynnal archwiliadau glanweithdra ar hap o'r manau canlynol:

- Ward 1, Gastroenteroleg Feddygol.
- Ward 8, Gynaecoleg.
- Ward 19, Ward Lawfeddygol.

1.6 Nodir ein canfyddiadau yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn. Rydym yn tynnu sylw at gryfderau, yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella ymhellach, ac yn argymhell camau gweithredu.

2. Canfyddiadau: Cryfderau, Meysydd i'w Gwella Ymhellach a Chamau y mae Angen eu Cymryd

2.1 Amgylchedd Cyffredinol Ysbyty'r Tywysog Siarl

Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn gweithredu rhaglen adnewyddu yn ysbyty'r Tywysog Siarl; mae'r rhaglen hon yn cynnwys gwneud gwelliannau i wardiau, coridorau cyhoeddus a llwybrau cerdded. Y trefniant oedd i Ward 1 a Ward 19 gael eu cau fis cyn ein hymweliad, ond deallwn gan y Bwrdd Iechyd y bu oedi oherwydd amgylchiadau na ellid bod wedi'u hosgoi. Caewyd y ddwy ward ddeg diwrnod ar ôl yr arolygiad, ac fe'u symudwyd i wardiau a oedd newydd eu hadnewyddu.

2.2 Ward 1, Gastroenteroleg Feddygol

Yr Amgylchedd

Nid oedd Ward 1 wedi ei hadnewyddu ar adeg ein hymweliad ac roedd staff y ward yn paratoi i symud i ward a oedd newydd ei hadnewyddu. Ystyriwyd bod amgylchedd cyffredinol ac adeiledd Ward 1 o safon **wael** a bod glanweithdra cyffredinol y ward yn **is na'r safon y byddid yn ei disgwyl**.



- Roedd nifer o gomodau wedi eu gosod yn barod i'w defnyddio, ond wrth eu harchwilio gwelwyd nad oeddynt wedi eu glanhau i safon dderbyniol. Dylid sefydlu dull cyson o lanhau comodau a dylid gosod arwydd amlwg i ddangos bod y comôd yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio.



- Canfuwyd llenni cawod â staeniau gwael arnynt a dylid gosod llenni newydd yn eu lle.



- Canfuwyd bod yr ystafell ddomestig yn anniben a bod yr offer yn fudr. Dylai'r staff sicrhau bod yr ystafell yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda a bod yr holl offer domestig yn lân pan gânt eu cadw.

Canfuwyd bod trolïau cofnodion y cleifion mewn cyflwr gwael. Dylai'r staff sicrhau bod holl drolïau'r cleifion yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.

Canfuwyd nifer o flychau yn cael eu cadw ar lawr yr ystafell amlbwrpas eitemau budron, gan ei gwneud yn anodd glanhau'r ystafell. Dylid cadw'r holl flychau uwch ben lefel y llawr er mwyn sicrhau y gellir glanhau'n effeithiol.

Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog

Roedd yr holl ddillad gwely a llieiniau ar y ward yn cael eu cadw'n gywir ac roedd dillad gwely a llieiniau a oedd wedi eu defnyddio yn cael eu rhoi mewn bagiau priodol â chod lliw arnynt, a'u cadw'n briodol cyn eu gwaredu.



- Canfuwyd bod yr ystafell wastraff mewn cyflwr gwael ac roedd yn amlwg yn fudr. Mae hyn yn annerbyniol. Dylai'r staff sicrhau bod pob man yn cael ei lanhau a'i gynnal a'i gadw i safon dderbyniol.



- Canfuwyd biniau gwastraff clinigol heb eu cloi mewn man yr oedd y cyhoedd yn gallu mynd iddo. Mae hyn yn annerbyniol ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y biniau gwastraff clinigol yn cael eu cloi bob amser.

Cyfarpar a Storffeydd

Yn gyffredinol, canfuwyd bod y cyfarpar ar y ward yn lân a bod y teclynnau'n cael eu cadw'n ddiogel ac yn briodol. Roedd amserlen lanhau wedi'i sefydlu ar gyfer y nyrsys ar y ward, ond nid oedd hon ar gael ar adeg ein hymweliad gan fod staff y ward yn paratoi i symud i ward a oedd wedi ei hadnewyddu.



- Canfuwyd bod yr ystafell lân/storfa yn anniben a bod cyfarpar amhriodol megis matresi wedi eu halogi yn cael eu cadw ar y llawr. Mae hyn yn annerbyniol a dylent gael eu cadw ar wahân i'r eitemau glân wrth aros i gael eu casglu.

Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

Yn gyffredinol, roedd y staff y siaradwyd â hwy yn ystod yr ymweliad wedi derbyn hyfforddiant rheoli haint o fewn y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth y staff ynglŷn â gweithdrefnau hylendid dwylo yn anghyson. Nid oedd yr holl staff yn deall pryd yr oedd yn briodol golchi eu dwylo, defnyddio ewyn / gel alcohol a phryd i wisgo menyg.

Hefyd, gwelwyd wrth arsylwi nad oedd y staff bob amser yn cymryd y cyfle i ddilyn y gweithdrefnau hylendid dwylo priodol. Dylai'r staff sicrhau eu bod yn golchi eu dwylo, er enghraifft ar ôl tynnu eu menyg, ar ôl cyswllt gyda chlaf a chyn gweithdrefnau clinigol.

Mae archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cynnal ar y ward, ond nid yw'r canlyniadau'n cael eu harddangos ar gyfer y staff. Dylid arddangos canlyniadau archwiliadau a dylid rhoi gwybod i'r staff amdanynt er mwyn gallu rhoi sylw i unrhyw faterion a nodwyd yn brydlon.

2.3 Ward 8, Gynaecoleg

Yr Amgylchedd


Mae'r ward wedi ei hadnewyddu'n ddiweddar a chanfuwyd bod glanweithdra'r ward o safon **dda**.



- Roedd y coridorau'n lân ac yn olau.



- Canfuwyd ffrâm padell wely â staeniau arni. Codwyd y mater hwn gyda'r staff a glanhawyd y ffrâm ar unwaith.



- Yn ystod ein hymweliad sylwyd bod claf yn derbyn llety yn yr ystafell driniaeth. Oherwydd y risgiau posibl, gan gynnwys rheoli haint a phreifatrwydd ac urddas, hysbyswyd aelodau uwch o staff y Bwrdd Iechyd ynglŷn â'r mater hwn ar adeg ein hymweliad.

Yn dilyn ein hymweliad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu dogfennau ategol yn nodi'r rhesymeg y tu ôl i leoli'r claf yn yr ystafell driniaeth. Mae AGIC ar hyn o bryd yn gwneud gwaith dilynol ar wahân ynglŷn â hyn gyda'r Bwrdd Iechyd.

Archwiliwyd y comodau i gyd a chanfuwyd eu bod yn lân ac yn barod i'w defnyddio.

Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog

Roedd yr holl ddillad gwely a llieiniau glân ar y ward yn cael eu cadw'n gywir ac roedd dillad gwely a llieiniau a oedd wedi eu defnyddio yn cael eu rhoi mewn bagiau priodol â chod lliw arnynt, a'u cadw'n briodol cyn eu gwaredu.

Roedd y ward yn ymdrin â gwastraff ac yn ei waredu'n gywir.

Roedd y ward yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol o ran ymdrin ag eitemau miniog a'u gwaredu'n ddiogel.

Cyfarpar a Storfeydd



- Gan nad oedd digon o le yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron, roedd eitemau amhriodol megis sgipiau dillad gwely a llieiniau a chomodau'n cael eu cadw yn y brif ystafell ymolchi. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried dull mwy priodol o gadw eitemau o'r fath gan fod yr arfer presennol yn annerbyniol.

Yn gyffredinol, canfuwyd bod y cyfarpar ar y ward yn lân a bod y teclynnau'n cael eu cadw'n ddiogel ac yn briodol. Fodd bynnag, nid oedd amserlen lanhau ysgrifenedig ar gael ar y ward. Dylid sefydlu amserlen lanhau ysgrifenedig sy'n sicrhau bod y staff yn deall pwy sy'n gyfrifol am lanhau beth a phryd.

Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

Roedd y staff y siaradwyd â hwy yn ystod yr ymweliad wedi derbyn hyfforddiant rheoli haint yn ystod y 12 mis diwethaf ac yn gyffredinol roedd gan y staff wybodaeth dda ynglŷn â phryd y dylent olchi eu dwylo a phryd y dylent wisgo menyg.

Mae archwiliadau hylendid dwylo'n cael eu cynnal ar y ward; ond nid yw'r canlyniadau'n cael eu harddangos ar gyfer y staff. Dylid arddangos canlyniadau'r archwiliadau a dylid rhoi gwybod i'r staff amdanynt er mwyn gallu rhoi sylw i unrhyw faterion a nodwyd yn brydlon.

2.4 Ward 19, Ward Meddygol

Yr Amgylchedd

Ystyriwyd bod safon gyffredinol y glanweithdra yn **dderbyniol**.



- Archwiliwyd y comodau i gyd a chanfuwyd eu bod yn lân ac yn barod i'w defnyddio. Defnyddir tâp i ddangos bod y comôd yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio, ac mae hyn yn gweithio'n dda.



- Canfuwyd nifer o eitemau cymunedol ar y ward. Dylid eu symud oddi yno gan fod posibilrwydd iddynt gael eu halogi os cânt eu defnyddio gan nifer o gleifion.

Roedd cypyrddau cyffuriau nad oeddynt wedi eu cloi yn yr ystafelloedd clinigol. Cymerwyd camau ar unwaith i ymdrin â hyn yn ystod ein hymweliad. Dylai'r staff sicrhau bod yr holl gypyrddau sy'n cynnwys meddyginiaeth neu sylweddau peryglus yn cael eu cloi bob amser.

Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog

Roedd yr holl ddillad gwely a llieiniau glân ar y ward yn cael eu cadw'n briodol ac roedd y dillad gwely a'r llieiniau a oedd wedi eu defnyddio yn cael eu rhoi mewn bagiau priodol â chod liw arnynt, ac yn cael eu cadw'n briodol cyn eu gwaredu.



- Canfuwyd biniau gwastraff clinigol heb eu cloi mewn man y mae'r cyhoedd yn cael mynd iddo. Mae hyn yn annerbyniol ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y biniau gwastraff clinigol yn cael eu cloi bob amser.

Roedd y ward yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol ynglŷn â thrin a gwaredu eitemau miniog.

Cyfarpar a Storfeydd

Yn gyffredinol, canfuwyd bod y cyfarpar ar y ward yn lân a bod y teclynnau'n cael eu cadw'n ddiogel ac yn briodol. Roedd amserlen lanhau ysgrifenedig ar gael ar y ward ond nid oedd y staff yn ei llenwi'n gyson. Dylai'r staff sicrhau eu bod yn llenwi'r amserlenni glanhau yn rheolaidd er mwyn iddynt wybod pwy ddylai lanhau beth a phryd.



- Canfuwyd matres wedi ei halogi yn cael ei chadw yn y storfa tra'i bod yn aros i gael ei chasglu. Mae hyn yn annerbynniol a dylid ei chadw ar wahân yn briodol.



- Canfuwyd bod y storfa'n llawn blychau a oedd yn cael eu cadw ar y llawr. Dylid eu symud oddi yno a'u cadw uwchben lefel y llawr gan nad oes modd glanhau'r storfa'n effeithiol ar hyn o bryd.



- Roedd storfa arall ar gael ar y ward, ond nid yw'n cael ei defnyddio'n effeithiol ar hyn o bryd. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried defnydd mwy priodol o'r ystafell gan nad yw'r lle sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar hyn o bryd.

Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

Roedd y staff y siaradwyd â hwy yn ystod yr ymweliad wedi derbyn hyfforddiant rheoli haint yn ystod y 12 mis diwethaf ac roedd gan y staff yn gyffredinol wybodaeth dda ynglŷn â phryd y dylent olchi eu dwylo a phryd y dylent wisgo menyg. Fodd bynnag, gwelwyd wrth arsylwi nad oedd y staff bob amser yn cymryd y cyfle i ddilyn y gweithdrefnau hylendid dwylo priodol. Dylai'r staff sicrhau eu bod yn dilyn y gweithdrefnau hylendid dwylo, er enghraifft ar ôl tynnu eu menyg, ar ôl cyswllt â chlaf a chyn gweithdrefnau clinigol.

Mae archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cynnal ar y ward, ond nid yw'r canlyniadau'n cael eu harddangos ar gyfer y staff. Dylid arddangos canlyniadau'r

archwiliadau a dylid rhoi gwybod i'r staff amdanynt er mwyn gallu rhoi sylw i unrhyw faterion a nodwyd yn brydlon.

3. Casgliad

3.1 Roedd safon y glanweithdra'n amrywio'n eithaf sylweddol ar y tair ward yr ymwelwyd â hwy: roedd un ward yn dda, un yn dderbyniol ac un yn is na'r safon y byddid yn ei disgwyl.

3.2 Fodd bynnag, nodwyd nifer o bryderon a oedd yn gyffredin i'r tair ward yr ymwelwyd â hwy yn ystod yr archwiliad glanweithdra ar hap, gan gynnwys:

- Biniâu gwastraff clinigol heb eu cloi.
- Archwiliadau hylendid dwylo heb eu harddangos ar gyfer y staff.
- Annibendod ac eitemau'n cael eu cadw mewn mannau amhriodol.

3.3 Rydym yn pryderu y gallai hyn awgrymu bod problemau'n codi trwy'r Bwrdd Iechyd cyfan. Mae'n ofynnol felly i'r Bwrdd Iechyd gynnal ei archwiliad ei hun o bob ward yn Ysbyty'r Tywysog Siarl er mwyn ei sicrhau ei hun, a chyflwyno adroddiad i AGIC yn nodi canlyniadau'r archwiliad.

4. Camau Nesaf

4.1 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd Lunio cynllun gweithredu i ymdrin â'r materion allweddol a amlygwyd, a'i anfon i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Dylai'r cynllun gweithredu nodi'n eglur pryd a sut yr ymdriniwyd â'r materion a nodwyd gennym ar y tair ward yr ymwelwyd â hwy, ynghyd ag amserlenni ar gyfer sicrhau nad yw'r materion yn cael eu hailadrodd mewn rhannau eraill o'r Bwrdd Iechyd.

4.2 Yna bydd y cynllun gweithredu hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i fonitro fel rhan o broses fonitro reolaidd AGIC.

4.3 Dymuna Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ddiolch i Fwrdd Iechyd Cwm Taf, ac yn enwedig y staff ar Ward 1, 8 a 19, a oedd yn gymwynasgar dros ben trwy gydol yr arolygiad.